# YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together

02.07.21

Annwyl Riant / Gofalwr

Mae'n anodd credu ein bod wedi cyrraedd pythefnos olaf'r tymor. Mae amser yn hedfan! Er y bu rhywfaint o gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru y bydd adolygiad ar sut y bydd ysgolion yn edrych yn nhymor yr Hydref, ar adeg ysgrifennu'r llythyr hwn, nid yw'r ysgol wedi derbyn unrhyw ddiweddariadau eto. Cyn gynted ag y byddwn yn derbyn unrhyw ddiweddariadau, byddaf yn rhoi gwybod ichi.

**Da iawn blwyddyn 6 a Miss Jones!**
Mae Blwyddyn 6 wedi ennill **cyntaf** yng nghystadleuaeth Treftadaeth Gymreig am eu gwaith ar eu cywaith 'Daw eto Haul ar Fryn'. Am glod!

Dyma y ddolen i chi wylio y Seremoni Wobrwyo https://www.youtube.com/watch?v=GBPVi_vuzIk

Welsh Heritage Schools Initiative — Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

## Enillwyr Gwobrau 2021
## Ysgolion Cynradd ac Iau

**Sefydliad Moondance**
*Gwobr:* **£1,000**

**YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR**
**Abertawe**

*Teitl:* **Daw eto Haul ar Fryn**

Dyma brosiect oedd yn cymharu bywyd yn ystod dau gyfnod anodd, sef yr Ail Ryfel Byd a'r pandemig presennol. Roedd y gymhariaeth â'r sefyllfa bresennol wedi galluogi'r dysgwyr i uniaethu ag anhawster byw trwy gyfnod anarferol. Canolbwyntiodd gwaith ymchwil y prosiect ar bob math o agweddau o fywyd yn ystod y rhyfel, o elfennau cenedlaethol megis dogni bwyd i bropaganda, ac yn fwy lleol, yn cynnwys y Blits yn Abertawe.
Arddangoswyd ystod eang o weithgareddau trawsgwricwlaidd, o greu sgriptiau a chwarae rôl, datblygu sgiliau cyfesurynnau drwy blotio lleoliad y bomiau i ddefnydd effeithiol iawn o'r amgueddfa leol.
Mae'n amlwg fod y prosiect wedi cael effaith cadarnhaol ar y dysgwyr, ac wedi eu galluogi i ddeall nifer o agweddau gwahanol o fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd mewn ffyrdd creadigol a pherthnasol. Ardderchog.

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

**Adroddiadau a dosbarthiadau**
Bydd adroddiadau i rieni yn cael eu rhyddhau ddydd Llun Gorffennaf 5ed. Bydd dosbarth ac athro eich plentyn ar gyfer Medi 2021 yn cael eu rhyddhau ddydd Mercher, Gorffennaf 7fed trwy e-bost (Parent mail).

**Pontio**
Bydd gweithgareddau trosglwyddo, lle bydd disgyblion yn cwrdd â'u hathro newydd ac i weld eu dosbarth, yn cael ei gynnal prynhawn ddydd Gwener, Gorffennaf 9fed - bydd yr holl weithgareddau trosglwyddo yn dilyn canllawaiu gyfredol**.** Bydd trefniadau eraill mewn lle ar gyfer y dosbarth meithrin, bydd llythyr yn dod dydd Llun.

**Newidiadau i'r cwricwlwm**
Rwyf wedi crybwyll mewn llythyrau blaenorol bod yna lawer o newidiadau i'r cwricwlwm ar y ffordd ac y bydd cwricwlwm statudol newydd ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd yng Nghymru ym mis Medi 2022. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar lawer o wahanol rannau o fywyd yr ysgol gan gynnwys sut i ddysgu addysg grefyddol a rhyw. Os hoffech - cliciwch ar y ddolen isod a bydd hyn yn mynd â chi i'r blog cwricwlwm a fydd yn rhestru'r 8 dogfen ddrafft sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Nawr yw'r amser i ddweud eich dweud.

https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2021/05/21/diwygiadau-i-ganllawiaur-cwricwlwm-ymgynghoriadau/

Yn nhymor yr hydref byddaf yn trefnu cyflwyniad i rieni ar y cwricwlwm newydd.

**Holiadur Rhieni**
Nodyn i'ch atgoffa - peidiwch ag anghofio llenwi'r holiadur blynyddol i rieni. Bydd yn cau 12pm 7/7/2021. Os ydych eisoes wedi ymateb, ni fydd angen i chi wneud eto.

https://forms.office.com/r/jXMhGEieSb

**HMS**
Ar gyfer mis Medi, mae diwrnodau HMS wedi'u cynllunio ar gyfer dydd Iau 2il a dydd Gwener 3ydd o Fedi. Felly, y diwrnod cyntaf yn ôl i ddisgyblion fydd **dydd Llun Medi 6ed**

**Staffio**
- Y pythefnos nesaf fydd y pythefnos olaf i Miss Karen Griffiths. Am y tro, mae Miss Griffiths wedi penderfynu rhoi gofal dros eu theulu yn flaenoriaeth, ac felly mae'n gadael Ysgol Bryn y Mor. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd a llwyddiant mawr iddi i'r dyfodol ac yn diolch o galon iddi am ei gwaith caled a'i hymroddiad i'r ysgol ers iddi ddechrau yma yn 2004.

- Llongyfarchiadau i Miss Lydia Harding. Llwyddodd yn ei chais am swydd fel athrawes yn yr ysgol am flwyddyn.
- Mae Mr Rhys Jones wedi penderfynu cymryd blwyddyn sabothol i ganolbwyntio ar elfennau eraill o'i

fywyd.

- Rydym yn croesawu Mrs Hiley yn ôl i Flwyddyn 1 ddydd Llun 12fed o Orffennaf o'i chyfnod mamolaeth. Felly, dydd Gwener 9fed o Orffennaf fydd diwrnod olaf Mrs Cath Jones gyda Blwyddyn 1. Fodd bynnag, rwy'n falch o ddweud y bydd Mrs Jones yn dychwelyd ym mis Medi i rôl wahanol.

**Arian a godwyd ar gyfer yr ysgol**
Codwyd y casgliad o ddydd Gwener diwethaf a'r dim we fan 'Just Giving': £ **454** - Diolch !!

Diolch am eich amynedd, eich caredigrwydd a'ch cydweithrediad.

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham
Pennaeth